

Adroddiad Arolygu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Hafan Wen

Dyddiad yr arolygiad: 23, 24 a 25 Hydref 2023

Dyddiad cyhoeddi: 25 Ionawr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C - Cynllun gwella	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Hafan Wen ar 23, 24 a 25 Hydref 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Mae Hafan Wen yn darparu gwasanaethau dadwenwyno cyffuriau ac alcohol ar gyfer uchafswm o 25 o gleifion 18 oed neu'n hŷn.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o chwe holiadur gan gleifion a chwblhawyd deg gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd ffocws ar ofal lleiaf cyfyngol i helpu i adsefydlu a gwella, gan gefnogi cleifion i gynnal a datblygu eu sgiliau.

Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r llety, yr oedd angen ei adnewyddu, a safon y glendid.

Drwy gydol ein harolygiad, gwelsom y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch.

Cawsom adborth cadarnhaol iawn ar y gofal a'r driniaeth yr oedd y cleifion yn eu cael.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Adnewyddu'r llety gan gynnwys newid y carpedi mewn sawl ardal
- Darparu gweithgareddau a gwella'r defnydd o'r gofod awyr agored.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cymorth therapi a gwella
- Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda â chleifion a gyda'i gilydd
- Caiff y gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ei gefnogi gan gynlluniau gofal manwl ac asesiadau risg cadarn
- Dogfennaeth a chadw cofnodion
- Gwaith tîm amlldisgyblaethol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod systemau ar waith i gadw'r cleifion yn ddiogel ac i ddarparu gofal effeithiol.

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, trefniadau iechyd a diogelwch a threfniadau rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd prydu'n cael eu paratoi ar y safle a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd oedd yn cael ei ddarparu.

Roedd y driniaeth glinigol yn cael ei harwain gan seiciatrydd ymgynghorol a gwelsom fod gwaith tîm amlldisgyblaethol effeithiol yn cael ei arfer.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Rhai agweddau ar atal a rheoli heintiau
- Adolygu rôl y gweithiwr cymorth therapi mewn perthynas â dyletswyddau glanhau
- Symud cynlluniau yn eu blaen i sicrhau cymorth fferyllol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwasanaethau therapiwtig
- Rheoli Meddyginiaethau
- Sgrym Diogelwch
- Cymysgedd sgiliau ymhlith y nyrsys cofrestredig
- Dogfennu gofal un i un
- Darparu bwyd a diod.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Trwy drafodaethau â staff ac arsylwadau, gwnaethom gasglu bod arweinyddiaeth a rheolaeth dda yn yr uned. Gwelsom fod gwaith tîm da yn digwydd a siaradodd y staff yn gadarnhaol am y cymorth a gynigir gan uwch-reolwyr, rheolwyr yr uned a chydweithwyr.

Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion a thrwy'r arolygiad, roeddent yn barod i dderbyn ein safbwyntiau, canfyddiadau ac argymhellion.

Roedd prosesau ar waith i staff dderbyn arfarniad blynyddol a chwblhau hyfforddiant gorfodol.

Roedd y tîm amlldisgyblaethol yn cael effaith gadarnhaol ar ofal a thriniaeth i gleifion ar yr uned.

Roedd y staff yn gadarnhaol am y cymorth roeddent yn ei gael, a'r cyfleoedd hyfforddiant a oedd ar gael iddynt.

Gwelsom fod gan y rheolwyr drosolwg da o'r gwasanaeth a bod polisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i helpu i ddarparu gofal yn ddiogel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Lleihau dibyniaeth ar staff asiantaeth
- Goruchwyliaeth glinigol
- Adroddiad ymweliad Rheoliad 28.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Hyfforddi staff
- Rhaglen recriwtio a sefydlu
- Polisiâu a gweithdrefnau gyda ffocws penodol ar bolisi'r mis
- Rheoli digwyddiadau, adrodd arnynt a'u cofnodi
- Cyfathrebu â'r cleifion a staff
- Archwilio ac adrodd
- Trosolwg gan y rheolwyr.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Hapus iawn."

"Mae staff ar gael bob amser"

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

"Mae angen iddo fod yn gynllun garddio. Mwy i'w wneud, yn enwedig yn yr awyr agored."

"Mwy o weithgareddau."

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth a phamffledi yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn amrywiol rannau o'r uned, ac roedd llawer ohonynt ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol. Gwelsom aelodau o'r staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth.

Urddas a pharch

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y staff.

Gwelsom aelodau o'r staff yn bod yn garedig ac yn dangos parch at y cleifion. Gwelsom aelodau o'r staff yn gwneud ymdrechion i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth roi cymorth iddynt ag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi gofal.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais a'u bod yn gwrando, arnyn nhw ac ar eu ffrindiau ac aelodau o'u teulu, a bod y staff yn eu galw wrth yr enw yr oedd yn well ganddynt ei ddefnyddio.

Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno bod y staff wedi siarad â nhw am eu cyflyrau ac wedi eu helpu i'w deall.

Roedd yr ystafelloedd gwely wedi'u dodrefnu a'u haddurno i safon dderbyniol. Roedd lolfeydd cymunedol/ystafell fwyta ar gael i'r cleifion eu defnyddio. Roedd modd defnyddio gardd gyda seddau yn yr awyr agored hefyd.

Roedd y cleifion yn cael cynnig y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau a sesiynau therapi grŵp a/neu unigol.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion, a oedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y gwahanol fathau o wasanaethau a ddarperir, cyfleusterau a staff yr uned.

Gwelsom y staff yn gofyn am gydsyniad cleifion cyn rhoi gofal iddynt, a gwelsom fod cydsyniad cleifion hefyd yn cael ei geisio cyn rhannu gwybodaeth am eu gofal â gweithwyr proffesiynol eraill.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd effeithiol, anogol, cynhwysol, pwylllog a pharchus.

Cymerodd y staff amser i gymryd rhan mewn trafodaethau gan ddefnyddio geiriau ac iaith sy'n addas i'r claf unigol.

Cyfeiriwyd at y cleifion gan ddefnyddio'r enwau roeddent yn eu ffafrio.

Dywedwyd wrthym fod rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg, a oedd yn golygu y gallai cleifion a pherthnasau a oedd yn siarad Cymraeg sgwrsio â nhw yn Gymraeg pe byddent yn dewis gwneud hynny.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd ansawdd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn dda, a gwelsom fod y gwerthusiadau ysgrifenedig yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r gofal a ddarparwyd.

Cafodd gofal a chymorth un i un ei ddogfennu'n dda hefyd.

Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu eu gofal eu hunain, cyhyd ag yr oedd hynny'n bosibl. Lle nad oedd y cleifion yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, gwelsom dystiolaeth fod y staff yn ymgynghori â'r perthnasau ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau am y gofal i'w ddarparu.

Dywedodd y staff wrthym fod cynlluniau gofal a thriniaeth cleifion ar gael i gleifion a/neu eu gofalcwyr lle y bo'n gymwys i'w helpu i ddeall eu gofal.

Mynychodd y cleifion gyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol a lle y bo'n briodol, gwnaethant weithio gyda'u prif nyrsys i adolygu a datblygu eu cynlluniau gofal a thriniaeth.

Roedd y tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol yn rhoi gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn yn ôl yr anghenion a aseswyd ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol eraill fel y nyrs arbenigol ar hyfywedd meinwe, deietegydd, therapyddion galwedigaethol, gweithwyr cymdeithasol a ffisiotherapyddion am newidiadau o ran anghenion y cleifion.

Nodwyd gennym fod systemau digonol ar waith ar gyfer cynllunio i'w rhyddhau a bod y cleifion yn cael eu hasesu gan weithwyr proffesiynol eraill cyn gadael yr uned.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Gwelsom fod y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ddarparu gofal. Er enghraifft, roedd drysau ystafelloedd gwely yn cael eu cau pan oedd gofal yn cael ei roi.

Nodwyd gennym fod asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) ac asesiadau Galluedd Meddyliol yn cael eu cynnal fel y bo angen.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Cafodd y cleifion eu hannog i ddarparu adborth parhaus i staff trwy drafodaethau anffurfiol dyddiol a sesiynau cymorth mwy ffurfiol.

Casglwyd adborth gan gleifion hefyd cyn eu rhyddhau trwy holiadur a chafodd enghreifftiau eraill o adborth, fel llythyrau a chardiau, eu postio ar hysbysfwrdd yng nghyntedd y brif fynedfa.

Yn ogystal, roedd yna 'fwrdd dywedocho chi, gwnaethom ni' a oedd yn dangos pa gamau a gymerwyd i wella'r gwasanaeth yn dilyn adborth gan gleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom fod gofal yn cael ei roi mewn modd diogel ac effeithiol.

Roedd polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd y rhain yn seiliedig ar ganllawiau clinigol cyfredol.

Roedd archwiliadau ac asesiadau risg cyffredinol yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r cleifion a'r staff.

Roedd sgrymiau diogelwch dyddiol yn cael eu cynnal a oedd yn cadw cofnodion yn gywir.

Gwelsom fod trefniadau boddhaol ar waith o ran diogelwch, dyletswyddau ar alwad a chynllunio ar gyfer argyfyngau.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod yr uned yn daclus ar y cyfan, gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau o ran glendid, yn enwedig mewn ystafelloedd en-suite ac o dan a thu ôl i gypyrddau a biniau. Roedd angen newid rhai o'r arwynebau gwaith yn y ceginau bach hefyd er mwyn sicrhau bod modd eu glanhau'n effeithiol. Roedd hi'n anos glanhau rhai ardaloedd oherwydd eu bod yn llaith ac roedd paent yn plicio.

Gwnaethom nodi hefyd fod angen glanhau'r carpedi mewn sawl ardal yn yr uned ac roedd angen newid rhai o'r soffas am eu bod wedi treulio a oedd yn eu gwneud yn anodd eu glanhau'n effeithiol.

Dywedwyd wrthym fod dau lanhawr rhan-amser yn cael eu cyflogi ac mai eu prif rôl oedd glanhau'r ystafelloedd gwely'n drylwyr ar ôl i gleifion gael eu rhyddhau ac mai cyfrifoldeb y staff cymorth adsefydlu oedd gwneud y mwyafrif o'r glanhau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, o gofio pa mor eang yw rôl y staff cymorth adsefydlu, mae'n ymddangos nad oes ganddynt ddigon o amser i lanhau'r llety'n effeithiol.

Rhaid i'r unigolion cofrestredig adolygu'r trefniadau glanhau a rôl y staff cymorth adsefydlu yn y broses hon er mwyn sicrhau y caiff yr uned ei chadw'n lân drwy'r amser. Amlygwyd hyn hefyd fel maes i'w wella yn ystod arolygiadau blaenorol o'r uned.

Rhaid i'r unigolyn cofrestredig wneud trefniadau i lanhau neu newid y carpedi oedd wedi'u staenio. At hynny, awgrymwn os bydd y carpedi'n cael eu newid,

dylid ystyried gorchudd llawr cyfansawdd mwy addas ar gyfer ardaloedd clinigol a chymunedol prysur fel coridorau.

Maeth

Roedd y bwyd a'r diod a oedd yn cael eu darparu yn dda iawn ac roedd anghenion bwyta ac yfed y cleifion yn cael eu hasesu adeg eu derbyn.

Roedd system effeithiol ar waith er mwyn diwallu anghenion cleifion unigol ac roedd y cyfathrebu rhwng y staff gofal a'r staff arlwygo yn dda.

Mae'r holl brydau yn cael eu coginio'n ffres ar y safle bob dydd, ac roeddent wedi'u cyflwyno'n dda ac yn edrych yn flasus. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

Roedd siartiau monitro yn cael eu defnyddio lle bo'u hangen, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael lefelau maeth a hylif priodol.

Yn ogystal â'r brif gegin, roedd ceginau bach ar y ward yn y lolfeydd cymunedol er mwyn i'r cleifion baratoi diodydd a byrbrydau.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel, yn effeithiol ac yn drefnus.

Gwelsom aelodau o'r staff yn rhoi meddyginiaeth ac edrychwyd ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth. Nodwyd fod y broses yn cael ei rheoli'n dda.

Roedd polisi rheoli meddyginiaeth cynhwysfawr ar waith. Roedd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

Roedd y feddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol ac roedd tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio a'i gofnodi'n rheolaidd.

Nid oedd gan yr uned gymorth fferyllol rheolaidd, a dywedwyd wrthym fod hyn wrthi'n cael ei drefnu.

Dylai'r unigolyn cofrestredig symud cynlluniau yn eu blaen er mwyn cael cymorth fferyllol rheolaidd.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisiau a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu gweithredol yn yr uned ar adeg yr arolygiad.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd tystiolaeth o drefniadau gweithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng staff gofal yr uned a gweithwyr proffesiynol eraill.

Roedd rowndiau ward dyddiol yn cael eu cynnal trwy aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion ffurfiol yn cael eu cynnal o'r trafodaethau a gynhaliwyd a'r penderfyniadau a wnaed yn ystod rowndiau wardiau ac nid oedd cofnod o bwy wnaeth fynychu rowndiau'r wardiau. Fel mater o arfer da, rydym yn argymhell bod yr unigolyn cofrestredig yn cadw cofnod o'r trafodaethau a gynhaliwyd a'r penderfyniadau a wnaed yn ystod rowndiau'r wardiau a phwy oedd yn bresennol.

O'n trafodaethau â'r staff ac o edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, nodwyd gennym fod y cleifion yn cael gofal ar sail tystiolaeth, diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd y driniaeth glinigol ar yr uned yn cael ei harwain gan seiciatrydd ymgynghorol a dywedwyd wrthym fod y protocol dadwenwyno wedi'i ddatblygu ar y cyd â'r bwrdd iechyd lleol.

Cafodd cysylltiadau cefnogol gyda thimau cymunedol a'r bwrdd iechyd lleol eu disgrifio a'u dangos. Gwelsom fod y tîm o staff yn defnyddio adnodd Asesiad Diddyfnu ar gyfer Alcohol y Sefydliad Clinigol (CIWA) i asesu'r cleifion hynny sy'n diddyfnu o alcohol a rheoli hynny'n ddiogel.

Roedd y rhaglen therapiwtig, sy'n anelu at gefnogi cleifion trwy'r broses ddadwenwyno, y cael ei harwain gan weithwyr cymorth therapiwtig. Cafodd ystod y dulliau seicogymdeithasol ar sail tystiolaeth eu disgrifio fel therapi ymddygiad gwybyddol, gofalgargwch a derbyn a therapi ymrwymiad.

Esboniodd uwch-aelodau o staff fod y tîm o staff yn cynnwys nyrsys iechyd meddwl cofrestredig a nyrsys cyffredinol cofrestredig. Gwnaethant esbonio bod y dull hwn yn fanteisiol, o gofio gofynion gofal ffisegol cynyddol llawer o'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a'i fod yn gwella ac yn ehangu set sgiliau'r tîm a lefel y gwasanaeth a gynigir.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am y cleifion a'r staff yn cael ei chadw'n ddiogel.

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ffurfiol ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael hyfforddiant priodol er mwyn ymgymryd â'u rolau ac mae'r cofnodion hyfforddiant a welwyd yn cadarnhau hyn.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Nid yw'r uned yn derbyn cleifion sy'n cael eu cadw neu sy'n destun cyfyngiadau neu oruchwyliaeth dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Gwneir hyn yn glir yn y Datganiad o Ddiben a'r Canllawiau i Gleifion.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
Mae disgwyl bod gan bob claf a dderbynnir i'r uned alluedd llawn. Ni chaiff cleifion eu cadw na'u cyfyngu mewn unrhyw ffordd ac maent yn rhydd i adael yr uned unrhyw bryd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Rhoddodd y staff sylwadau cadarnhaol ar yr amgylchedd gwaith ac ar y cymorth a dderbynnir gan y rheolwyr ac uwch-aelodau eraill o staff yn y sefydliad.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Rwy'n teimlo ei bod yn ffrainc gweithio yn y lleoliad hwn ac rwy'n ddiolchgar am y cyfle i weithio gyda chleifion, gan wneud gwahaniaeth yn eu bywydau.”

“Mae llawer o gymorth ar gael i staff, yn ogystal ag atgyfeiriad iechyd galwedigaethol os oes angen ar ffurf cadw'n iach, y mae ei fanylion wedi'u darparu i'r arolygwyr, felly ni fyddaf yn rhestru'r cynnig yma, ond roeddwn am ei ychwanegu gan fy mod i'n gwybod y gwneir defnydd da ohono a'i fod yn wasanaeth effeithiol i staff. Rwy'n falch o weithio i sefydliad sy'n gofalu cystal am ei staff.”

“Rwy'n teimlo bod ansawdd y gofal a roddir i'n cleifion o safon uchel. Rwyf wedi bod yn gweithio i Adferiad ers 5 mlynedd ac mae fy mhrofiad wedi bod yn wych hyd yma.”

“Mae'r uned yn cyflogi amrywiaeth o ddisgyblaethau nyrsio i ddiwallu anghenion newidiol y cleifion camddefnyddio sylweddau. Mae'r galw am ofynion nyrsio a gofal meddygol bellach ar lefel nas profwyd erioed o'r blaen ac rwy'n teimlo bod pob claf yn derbyn gofal diogel ac effeithiol yn gyson gan dîm o ymarferwyr hynod fedrus.”

“Dydw i erioed wedi gweithio unrhyw le mor gefnogol a gyda staff mor ofalgar.”

“Mae'r staff yn gefnogol ac yn dîm arbennig. Mae'r rheolwr a'r tîm arwain mor gefnogol.”

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Mae angen rhywfaint o sylw ar yr adeilad. Mae'r gwaith addurno a chynnal yr ardd yn destun siom i'r adeilad. Mae angen ymestyn yr oriau glanhau.”

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff y gwasanaeth ei weithredu gan Adferiad Recovery Limited, sy'n elusen gofrestredig. Yn unol â'r rheoliadau, roedd unigolyn cyfrifol a rheolwr cofrestredig yn eu swydd. Y rheolwr cofrestredig, sydd wedi'i leoli yn yr uned, oedd yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Roedd gan yr unigolyn cyfrifol, ynghyd â staff rheoli arall, rôl reoli ehangach yn Adferiad Recovery Ltd. Cafodd llinellau dirprwyo, atebolrwydd ac adrodd clir yn yr uned a'r sefydliad ehangach eu disgrifio a'u dangos.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau anffurfiol da ar waith o ddydd i ddydd i oruchwyllo a chefnogi'r staff a gwelsom fod adolygiadau arfarnu staff ffurfiol, wedi'u dogfennu, yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth i ddangos bod goruchwyliaeth glinigol ffurfiol yn cael ei chynnal yn rheolaidd.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sefydlu system i'r staff gael goruchwyliaeth glinigol reolaidd, wedi'i dogfennu.

Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd cofnodion yn cael eu cymryd a'u rhannu â'r aelodau hynny o'r staff nad oeddent yn bresennol.

Gwnaethom siarad â sawl aelod o'r staff ac roeddent yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion.

Dywedwyd wrthym fod cynrychiolydd ar gyfer yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r uned yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i dogfennu o'r ymweliad diweddaraf.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Reoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn llawn, drwy sicrhau y caiff adroddiad ei gynhyrchu yn dilyn ei ymweliad â'r uned.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gallai gwybodaeth am y ffordd y gallai cleifion gwyno ei dangos yn ardal y prif gyntedd.

Roedd Datganiad o Ddiben a Chanllaw i Gleifion y gwasanaeth, sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn darparu gwybodaeth am sut i godi pryder neu gŵyn.

Cawsom wybod gan y staff fod nifer y cwynion a geir am y gwasanaeth a ddarperir yn isel iawn a bod y gwasanaeth yn delio â nhw'n uniongyrchol lle y bo'n bosibl.

Dywedodd pob un o'r aelodau o staff a gwblhaodd yr holiadur fod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am wallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu

ddigwyddiadau, a'u bod o'r farn bod y staff hynny sy'n gysylltiedig ag achosion o'r fath yn cael eu trin yn deg.

Dywedwyd wrthym y caiff unrhyw gwynion neu ddigwyddiadau eu hymchwilio iddynt gan ddilyn y dull dadansoddiad o wraidd y broblem gyda chymau gweithredu a dysgu'n cael eu nodi a'u cyfleu i'r staff.

Cafodd trafodaethau un i un ac ymarfer adlewyrchol hefyd eu cynnal gyda staff, yn ogystal â thrafodaethau tîm a memorandum i bob aelod o'r staff.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd rhywfaint o ddibyniaeth ar staff asiantaeth. Fodd bynnag, roedd pob ymdrech yn cael ei gwneud i gael gwasanaethau'r un aelodau o staff er mwyn sicrhau parhad gofal a staff a oedd yn gyfarwydd i'r cleifion.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig barhau â'i ymdrechion i recriwtio staff parhaol er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth.

Roedd staff yr uned yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant mewnol ac allanol.

Roedd y wybodaeth am hyfforddiant y staff a ddarparwyd yn dangos bod cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol yn dda. Roedd disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant mewn pynciau fel diogelwch tân, rheoli heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Iechyd a Diogelwch a Diogelu yn ogystal â hyfforddiant penodol i'r gwasanaeth.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd proses recriwtio staff ffurfiol ar waith.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff a gwelsom fod yr uned wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn i'r staff ddechrau gweithio.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Hafan Wen

Dyddiad yr arolygiad: 23, 24 a 25 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Tynnwyd sylw at unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Hafan Wen

Dyddiad yr arolygiad: 23, 24 a 25 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r unigolion cofrestredig adolygu'r trefniadau glanhau a rôl y staff cymorth adsefydlu yn y broses hon er mwyn sicrhau y caiff yr uned ei chadw'n lân drwy'r amser.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Recriwtio cynorthwyydd domestig rhan-amser ychwanegol. Mynd â'r tîm i X4 aelod o staff, yn gweithio rota dros 7 diwrnod.	Rheolwr Cofrestredig	3 mis
	Rheoliad 15. (8) (c)	Bydd archwiliad glanhau trylwyr yn cael ei roi ar waith yn yr uned sy'n cwmpasu pob ystafell ac ardal glinigol.	Rheolwr Cofrestredig	3 mis
Rhaid i'r unigolyn cofrestredig wneud trefniadau i lanhau neu newid y carpedi oedd wedi'u staenio. At hynny, awgrymwn os bydd carpedi'n cael eu newid, dylid ystyried gorchudd llawr cyfansawdd mwy addas ar gyfer	Safon 13. Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Prynwyd glanhawr carpedi fel mesur interim ar gyfer yr uned.	Rheolwr Cofrestredig	Ar unwaith
		Bydd dyfynbrisiau ar wahân am loriau newydd yn cael eu trefnu ar gyfer ardaloedd clinigol, ystafelloedd gwely ac ardaloedd	Rheolwr Cofrestredig	Ar unwaith

ardaloedd clinigol a chymunedol prysur fel coridorau.		staff gyda chwmni lloriau lleol. Bydd amserlen waith yn cael ei rhoi ar waith i newid y llawr. Bydd lloriau'r ardaloedd cymunedol yn cael eu glanhau'n drylwyr yn amlach. Roedd y cwmni presennol yn arfer mynychu'r uned ddwywaith y flwyddyn, ond bydd hyn yn cael ei gynyddu i ymweliadau chwarterol. Mae trafodaethau yn destun adolygiad contract newydd er mwyn i PBC/ABP helpu gyda chyllid ar gyfer lloriau newydd.	Rheolwr Cofrestredig Cyfarwyddwr Cyswllt	3 mis 3 mis
Dylai'r unigolyn cofrestredig symud cynlluniau yn eu blaen er mwyn cael cymorth fferyllol rheolaidd.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15. (5) (a) a (b) Safon 15. Rheoli meddyginiaethau	Trafodaethau parhaus gyda fferyllfa BIPBC i sefydlu cymorth fferyllol cadarn. Yn dibynnu ar ganlyniadau'r uchod, ystyried rhoi cymorth fferyllol allanol ar waith i sefydlu system rheoli meddyginiaethau cadarn.	Dirprwy Reolwr Nyrsio a'r Cyfarwyddwr ac Unigolyn Cyfrifol Nyrs sy'n Rhagnodi	3 mis 3 mis

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sefydlu system i'r staff gael goruchwyliaeth glinigol reolaidd, wedi'i dogfennu.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Sefydlu Matrics Goruchwyllo i ddarparu goruchwyliaeth glinigol i'r staff arwain.	Cyfarwyddwr Cyswllt/a'r Cyfarwyddwr a'r Unigolyn Cyfrifol	3 mis
	Rheoliad 20. (2) (a) Safon 25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Ymgorffori'r Strwythur Goruchwyllo a'r Matrics Goruchwyllo i ddarparu goruchwyliaeth glinigol i weddill y staff.	Cyfarwyddwr a'r Unigolyn Cyfrifol/ Rheolwr Cofrestredig/ Nyrs Lywodraethu	3 mis
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Reoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn llawn, drwy sicrhau y caiff adroddiad ei gynhyrchu yn dilyn ei ymweliad â'r uned.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 28	Darparwyd adroddiad arolygu mewnol gan ymgynghorydd allanol. Bydd ymweliadau chwarterol yn cael eu trefnu gyda'r Unigolyn Cyfrifol (newydd i'r swydd) i sicrhau bod Rheoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, yn cael ei gynnal a thrwy sicrhau y caiff adroddiad ei lunio yn dilyn ei ymweliad â'r uned.	Ymgynghorydd Adferiad Cyfarwyddwr ac Unigolyn Cyfrifol	Ar unwaith 3 Mis - Templed ar gyfer yr adroddiad i'w ffurfio

Rhaid i'r darparwr cofrestredig barhau â'i ymdrechion i recriwtio staff parhaol er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Bydd aelodau o staff yn parhau i gael eu recriwtio, yn cynnwys hysbysebu swyddi gwag ar sawl gwefan swyddi, yn ogystal â hysbysebu'n fewnol.	Rheolwr Cofrestredig	3 mis
	Rheoliad 20.			
	Safon 25.	Parhau i ddarparu rhaglen sefydlu helaeth i gefnogi dechreuwyr newydd a gwella cyfraddau cadw staff.	Rheolwr Cofrestredig a'r Cyfarwyddwr ac Unigolyn Cyfrifol	3 mis
	Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Meithrin cysylltiadau pellach gyda'r adran wirfoddoli ac annog mwy o wirfoddolwyr i'r gwasanaeth a allai wedyn gael eu hystyried ar gyfer swyddi gwag yn y dyfodol.	Rheolwr Cofrestredig	3 mis
		Ystyried rolau anhraddodiadol i amrywio'r tîm o staff a galluogi recriwtio ehangach.	Rheolwr Cofrestredig/ Cyfarwyddwr ac Unigolyn Cyfrifol/Cyfarwyddwr Cyswllt	3 mis

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Gemma Lyon

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 15/01/2024